Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Elwern
# Gwyddelwern
# Corwen
# LL21 9DF

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Elwern

Mae Ysgol Bro Elwern wedi ei lleoli ym mhentref Gwyddelwern, ger Corwen, Sir Ddinbych.  Mae’r ysgol wedi ffedereiddio gydag Ysgol Betws Gwerfil Goch.

Mae 51 o ddisgyblion rhwng 3 a 11 oed yn yr ysgol ac maent yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth oedran cymysg.  Daw tua 35% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Dros dreigl tair blynedd, mae tua 10% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%.  Mae’r ysgol wedi adnabod bod gan tua 16% o’r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.  Mae bron bob disgybl o genfdir gwyn Prydeinig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2015.  Penodwyd y pennaeth i’w rôl fel pennaeth gweithredol â chyfrifoldeb dros ddwy ysgol y ffederasiwn ym Medi 2017.  Fe’i penodwyd i’r rôl yn barhaol ym mis Ebrill 2018.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Elwern yn gymuned Gymreig hapus a gofalgar lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau dysgu mewn awyrgylch gartrefol a chynhwysol iawn. Mae perthynas y disgyblion gyda'i gilydd a'r gofal maent yn ei arddangos tuag at eraill ar draws yr ysgol yn nodweddion cryf.

Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol gyda gweddill staff y ffederasiwn er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion. Mae'r arweinwyr yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol o fewn y ffederasiwn. Maent yn adnabod cryfderau a meysydd datblygu'r ysgol yn drylwyr ac yn rhoi cynlluniau synhwyrol ar waith er mwyn sicrhau gwelliannau. Mae arweinwyr yn adnabod manteision gweithio fel ffederasiwn o ysgolion ac yn datblygu trefniadau cydweithio effeithiol ymysg yr holl staff er mwyn rhannu arbenigeddau a gweithio ar wella'r ddarpariaeth.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Lledaenu'r arferion addysgu gorau yn y ffederasiwn er mwyn sicrhau lefel o her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion

A2 Sicrhau bod adborth yr athrawon yn galluogi disgyblion i wybod sut i wella safon eu gwaith

A3 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am fywyd a datblygiad yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg a mathemateg islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar Cymraeg yn gyflym, ac yn siarad yn hyderus mewn amrediad eang o gyd-destunau. Nodwedd gref yw'r ffordd mae disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a digymell gyda'u cyfoedion wrth weithio ac ar adegau anffurfiol. Gall y rhan fwyaf drafod yn aeddfed, a mynegi barn gan gynnig rhesymau dros eu safbwynt. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn trafod priodweddau angenrheidiol ar gyfer creu cartref lindysyn.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau darllen cynnar yn hyderus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr aeddfed sy'n defnyddio medrau ffonig cadarn wrth ddehongli geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddarllenwyr aeddfed a medrus, ac yn darllen i'r un lefel yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn am strwythur a ffurf gyda hyder cynyddol, ac yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ymchwilio i hanes boddi Cwm Tryweryn. Maent yn siarad yn aeddfed am eu llyfrau, ac yn gwneud dewisiadau doeth ynglŷn â'u deunydd darllen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus o oedran cynnar. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau i adeiladu cymalau a geiriau. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu i safon dda, er enghraifft wrth greu darn dychmygus am y ddraig goch. Mae'r rhan fwyaf yn amrywio dechrau brawddegau'n effeithiol ac yn defnyddio cysyllteiriau ac ansoddeiriau yn hyderus. Gallant gywain gwybodaeth o destun a'i defnyddio'n effeithiol wrth greu adroddiad ffeithiol am drychfilod. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol mewn amrywiol ffurfiau, yn aml mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn efelychu rhannau o ddyddiaduron Anne Frank fel rhan o'u gwaith ar y thema 'cofio,' ac yn ysgrifennu bywgraffiad o Michael Morpurgo. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu, ac mae eu sillafu a'u hatalnodi'n gadarn.

Mae medrau mathemateg rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Mae'r plant ieuengaf yn datblygu hyder wrth gyfri ac yn adnabod rhifau o oedran cynnar. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau cadarn trwy weithgareddau cyfoethog ymarferol, sy'n eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o rif, siâp a thrin data. Gallant ddefnyddio data i greu graffiau syml a'u dehongli yn hyderus, er enghraifft wrth gymharu taldra anifeiliaid o stori'r Gryffalo.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth gadarn am rif, siâp a thrin data. Gallant ddefnyddio'r dull mwyaf effeithiol, a gwneud eu penderfyniadau eu

hunain wrth ddatrys problemau a chymharu atebion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ymchwilio'n hyderus, er enghraifft wrth gymharu'r berthynas rhwng milltiroedd a chilometrau. Maent yn cyfrifo'r canolrif, y modd a'r cymedr yn hyderus wrth ystyried oedran y milwyr o ardal yr ysgol a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio meddalwedd yn hyderus wrth ddatblygu dealltwriaeth o lythrennau a geirfa. Maent yn cofnodi eu gwaith yn annibynol a hyderus trwy ddefnyddio 'ap' sy'n eu galluogi i dynnu llun o'r gwaith a'i rannu yn ffeiliau'r grŵp. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrediad da o offer yn hyderus wrth atgyfnerthu eu rhifedd a'u llythrennedd, ac wrth ymchwilio'n annibynol am wybodaeth. Gallant greu cyflwyniadau effeithiol trwy ddefnyddio gwahanol feddalwedd, taenlenni a chronfeydd data elfennol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o reolau cadw'n ddiogel ar y we.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen ei wneud i gadw'n iach. Maent yn gwneud dewisiadau doeth o ran bwyd a diod ac yn deall pwysigrwydd ymarfer corff a gweithgareddau iachus fel chwarae pêl-droed neu ddefnyddio'r wal ddringo. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel clybiau chwaraeon a chelf. Maent yn siarad yn hyderus am sut i gadw'n ddiogel ar y we, ac yn gwerthfawrogi mewnbwn swyddog addysg yr heddlu ac ymweliadau i'r Pentref Peryglon sydd wedi cyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth o ddiogelwch.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau'r ysgol. Mae ganddynt berthynas waith agos ac anwythol gyda'r staff ac maent yn trin ymwelwyr gyda pharch. Maent yn ymddwyn yn dda yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch tuag at eu cyfoedion yn ystod gwersi, ac yn meddu ar y medrau i gydweithio'n effeithiol mewn grwpiau bach. Maent yn ofalgar o'i gilydd, er enghraifft wrth wneud defnydd cyson ac effeithiol o'r system 'Ffrindiau Ffeind' sy'n rhoi cyfrifoldeb i blant cyfnod allweddol 2 edrych ar ôl disgyblion iau. Mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at ymdeimlad cymunedol yr ysgol.

Mae'r cyngor ysgol yn weithredol ac yn cefnogi blaenoriaethau presenol yr ysgol yn briodol, er enghraifft trwy gyfrannu at greu côd ymddygiad a rheoli cyllideb codi arian. Yn dilyn ymweliad â Neuadd y Sir, maent wedi dysgu mwy am eu hawliau a'r broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu gweithgareddau a gwneud penderfyniadau wedi datblygu'n llawn. Mae ychydig o ddisgyblion yn derbyn cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft fel aelodau o'r Cyngor Eco, neu Ddewiniaid Digidol yr ysgol sy'n cefnogi plant ym maes TGCh yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd edrych ar ôl eu hamgylchfyd trwy waith cwricwlaidd a thrwy weithgareddau ychwanegol fel gofalu am erddi'r ysgol a sicrhau bod tir yr ysgol yn glir o sbwriel.

Mae bron bob un disgybl yn dangos agwedd bositif tuag at ddysgu ac yn mwynhau ymgymryd a thasgau yn eu gwersi. Maent yn ymdopi’n dda â heriau newydd ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu anawsterau. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn datblygu’n dda fel dysgwyr annibynnol trwy wneud penderfyniadau a gweithio gyda hyder yn ardaloedd gwahanol y dosbarth a thu allan. Maent yn cydweithio â chyfoedion yn effeithiol i ddatrys problemau gan ddewis lefel yr her eu hunain. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cofnodi eu gwaith ymarferol gyda lefel dda iawn o annibyniaeth gan ddefnyddio cyfrifiadur llechen.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn barod i ddysgu yn brydlon ar gychwyn gwersi ac yn symud yn hwylus iawn rhwng gweithgareddau yn y dosbarth ac yn yr ardal tu allan. Mae’r rhan fwyaf yn canolbwyntio’n dda mewn gwersi ac yn ymddwyn yn aeddfed. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, mae ychydig o ddisgyblion ar adegau’n cymryd gormod o amser i ymdawelu ar gychwyn gwersi ac wrth drosi rhwng un gweithgaredd ac un arall. Unwaith maent ar waith, mae’r rhan fwyaf yn ymdopi’n dda gydag amrywiaeth o dasgau ac yn canolbwyntio ar eu gwaith yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae’r holl staff yn darparu model ieithyddol hynod effeithiol a chyson ar gyfer y disgyblion. Mae’r athrawon a’r staff cymorth yn holi’n llwyddiannus er mwyn annog y disgyblion i fynegi barn ac i drafod gydag eraill, er enghraifft wrth drafod eu gwaith ar yr Ail Ryfel Byd, neu wrth drafod boddi Cwm Tryweryn.

Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu er mwyn annog y disgyblion i ymroi’n llawn i’w gweithgareddau. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o ofynion cwricwlwm y cyfnod sylfaen a’r cwricwlwm cenedlaethol ac maent yn darparu tasgau a heriau sy’n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y ddisgyblion yn ymroi’n llawn i’w dysgu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae’r athrawon yn meithrin annibyniaeth y disgyblion yn fedrus. Maent yn cydweithio’n effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd cyfoethog i’r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn ystod o gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion y dosbarth meithrin ddatblygu medrau llythrennedd cynnar trwy weithgareddau ymarferol yn yr ardaloedd dysgu, tu mewn a thu allan. Mae athrawon yn herio ac ymestyn disgyblion o alluoedd gwahanol i ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau ymestynnol a diddorol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r addysgu yn gadarn yn y rhan fwyaf o wersi. Mae’r athrawon yn cynllunio ystod effeithiol o weithgareddau sy’n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd i drafod gyda’u cymheiriaid, a dod i farn. Fodd bynnag, nid yw pob gweithgaredd yn herio ychydig o’r disgyblion mwy galluog i ddatblygu hyd eithaf eu gallu.

Mae safon adborth llafar yr athrawon ar gyfer disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae’r adborth yn adeiladol ac mae’n gymorth i’r disgyblion ddeall a gwerthuso eu

cynnydd. Ceir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion asesu gwaith eu cymheiriaid er mwyn gwerthuso cynnydd, a defnydd cyson o dargedau gwelliant. Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o effaith y prosesau hyn ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae safon adborth ysgrifenedig athrawon yn anghyson ac nid yw bob amser yn rhoi arweiniad clir i'r disgyblion ynglŷn â sut i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae'r cynlluniau gwaith tymor hir, tymor canolig a byr wedi eu sefydlu'n gadarn ac mae athrawon yn eu defnyddio'n gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi'n llawn i'w dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol y disgyblion, ac yn sicrhau cyfranogiad bron bob disgybl. Mae'r cynllunio ar gyfer llythrennedd yn effeithiol. Mae cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i ddisgyblion o bob gallu ddatblygu eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn amrywiol gyd-destunau. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r cynllunio ar gyfer rhifedd wedi'i sefydlu'n dda. Mae cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu gwahanol elfennau rhif mewn amrediad effeithiol o gyd-destunau, yn unol ag oedran a gallu.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu TGCh wedi gwreiddio'n dda ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrediad o offer yn hyderus ac yn gwneud cynnydd da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu system olrhain sydd yn dangos cynnydd y disgyblion ar eu taith trwy'r ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth dda o berfformiad cyfredol bob plentyn a'r hyn sydd ei angen i'w cefnogi i wella. Mae'r staff yn defnyddio'r system yn effeithiol er mwyn adnabod disgyblion sydd angen ymyraethau ychwanegol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau addas ar eu cyfer, er enghraifft trwy wneud defnydd o raglenni rhifedd a llythrennedd penodol. Mae'r ysgol wedi creu partneriaethau cadarn gydag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn cefnogi dysgu'r disgyblion, er enghraifft trwy wneud defnydd o wasanaethau arbenigol y cyngor sir, neu drwy ddarparu sesiynau ar dechnoleg mewn cydweithrediad â chwmni adeiladu leol, sy'n atgyfnerthu medrau'r llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys creu ac adolygu cynlluniau unigol yn systematig. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau bod y rhan fywaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn amrywiol. Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod plant sydd ag anghenion emosiynol yn manteisio ar y cyfleoedd mae'r ysgol yn eu cynnig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dygymod â heriau yn aeddfed.

Mae gan yr athrawon berthynas gynhyrchiol gyda rhieni'r rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â gwaith yr ysgol a chynnydd eu plant. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi cyflwyno trefn o gyfarfod rhieni i gyflwyno gwybodaeth, ac o ganlyniad, mae ganddynt well dealltwriaeth o rai blaenoriaethau cenedlaethol fel y pwyslais ar lythrennedd a rhifedd.

Trwy wersi gwyddoniaeth a defnydd o adnodd addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r ysgol yn sicrhau bod gan ddisgyblion y wybodaeth angenrheidiol i wneud

dewisiadau doeth o ran bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Mae staff hefyd yn defnyddio darparwyr allanol yn effeithiol i sicrhau bod y disgyblion yn deall y peryglon sy'n cysylltiedig â'r camdefnydd o foddion a sut i gadw'n ddiogel ar y we.

Mae'r disgyblion yn cael ychydig o gyfleoedd i gymryd cyfrifoldebau yn yr ysgol trwy ymgymryd â rolau gwahanol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw gwaith grwpiau penodol fel y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco wedi ei ddatblygu'n llawn hyd yma. Mae cysylltiadau agos yr ysgol gyda'r gymuned yn arwain at ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am fyd gwaith. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n bwrpasol gyda chwmni adeiladu lleol ar brosiect ffilmio digidol, i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o gyfleoedd cyflogaeth ym maes melinau gwynt. Mae'r elfen leol hefyd yn gryfder yng nghynlluniau gwaith yr ysgol, sy'n darparu nifer helaeth o gyfleoedd i blant ddysgu am eu cynefin a diwylliant lleol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu diwylliant trwy gystadlu a pherfformio mewn eisteddfodau a chystadlaethau celf a chrefft.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar greu cymuned dysgu lle mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu a chyflawni'n dda. Mae'r pennaeth yn rhannu'r weledigaeth hon yn glir gyda staff ysgolion y ffederasiwn, aelodau'r corff llywodraethol, y rhieni a'r disgyblion. O ganlyniad, mae gan yr holl randdeiliaid ymwybyddiaeth dda o berfformiad ysgolion y ffederasiwn, ac o gyflawniad a chynnydd disgyblion. Mae gan y pennaeth fedrau arwain cadarn ac effeithiol. O fewn cyfnod byr, mae wedi sefydlu nifer o strategaethau sydd wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth, ac atgyfnerthu ymwybyddiaeth o undod ar draws y ffederasiwn. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn codi safonau, cyflawniad a lles disgyblion.

Trwy gydweithio'n agos â'r pennaeth ac arweinwyr, mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt wybodaeth gyfredol am berfformiad yr ysgolion, ac mae eu rôl fel ffrind beirniadol yn datblygu'n addas. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ganfyddiadau prosesau monitro i wneud penderfyniadau strategol am ddatblygiad ysgolion y ffederasiwn.

Mae'r adroddiadau hunanarfarnu yn ddogfennau teg a gonest sy'n adlewyrchu'r cryfderau a'r materion i'w gwella o fewn dwy ysgol y ffederasiwn yn dda. Maent wedi eu seilio ar dystiolaeth uniongyrchol ddilys, fel arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r pennaeth yn crynhoi ac yn defnyddio'r wybodaeth o'r prosesau hyn yn fedrus er mwyn gosod cyfeiriad synhwyrol i wella'r ysgolion. Mae'r cynllun datblygu ysgol ar gyfer ysgolion y ffederasiwn yn cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau synhwyrol. Mae'r arweinwyr yn adnabod gweithgareddau pwrpasol er mwyn bodloni'r blaenoriaethau ac yn clustnodi adnoddau a staff yn effeithiol er mwyn eu cwblhau.

Mae prosesau rheoli perfformad addas gan arweinwyr er mwyn datblygu staff a sicrhau ansawdd da eu gwaith. Caiff staff fynediad priodol i ystod berthnasol o ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant defnyddiol. Mae'r staff yn

cydweithio'n llwyddiannus o fewn y ffederasiwn, sy'n cychwyn cryfhau eu gallu i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau, er enghraifft wrth gyd-gynllunio meysydd y cwricwlwm a rhannu arbenigeddau.  Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i weld effaith lawn y cydweithio hwn.

Mae arweinwyr yn sicrhau defnydd priodol o gyllideb yr ysgol er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2018